



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs yn eich helpu i ddysgu:

- Am y gwahanol swyddi sydd ar gael a sut beth fyddai gweithio o fewn y sector Teithio a Thwristiaeth;
- Ystod a sgiliau cyflogadwyedd gogyfer â gyrfa mewn Teithio a Thwristiaeth drwy gyflawni gweithgareddau sydd yn ymwneud â'r byd gwaith.
- Archwilio gwahanol gyrchfannau Teithio a Thwristiaeth oddi fewn y DU a thramor a darganfod eu hapêl i wahanol fathau o deithwyr.
- Ymchwilio datblygiadau diwydiant Teithio a Thwristiaeth, ee tŵf mewn deunydd technoleg.

Sut fyddaf yn dysgu?

Byddwch yn treulio prynhawn llawn yng Ngholeg Menai, safle Bangor. Mae'r cwrs yn gymysgedd o waith dosbarth a thasgau ymarferol. Bydd cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn cael eich asesu, er mwyn i chi fod yn deall yr hyn sydd angen ei wneud. Yn ogystal, bydd ymweliadau allanol lleol a rhanbarthol yn cael eu trefnu i gryfhau dysgu yn y dosbarth.

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Byddwch yn gwneud gwaith cwrs fydd yn cael ei asesu gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi, ynghyd â pharatoi portffolio. Bydd arholiad allanol ar gyfer yr uned craidd.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs?

Dyma rai o'r llwybrau y gallwch eu dilyn ar ôl y cwrs:-

- Dilyn cymysgedd o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd yn rhan o bartneriaeth rhwng yr ysgol/Coleg Menai, ee Tystysgrif BTEC Lefel 3 / Diploma Atodol / Safon UG / Uwch.
- Dilyn cymhwyster lefel 2 neu lefel 3 yng Ngholeg Menai, ee Diploma BTEC Lefel 2, Diploma BTEC Atodol Lefel 3, Diploma neu Ddiploma Estynedig.
- Dilyn cymhwyster NVQ mewn sector cysylltiedig ar lefel 2 neu lefel 3 yng Ngholeg Menai.

Yn y pen draw, gallwch fynd ymlaen i astudio ar gyfer gradd neu gymhwyster proffesiynol wrth ddilyn unrhyw un o'r llwybrau yma.

Syniadau am Swyddi! Hyfforddi ar gyfer:

- Asiant Teithio
- Cynrychiolydd Cyrchfannau Gwyliau
- Gwaith yn y diwydiant mewn marchnad sydd yn cynyddu mewn cyfleoedd

Eisiau gwybod mwy?

I gael gwybod mwy am y cwrs, ewch i'r wefan:

<http://qualifications.pearson.com/en/qualifications/btec-firsts/public-services-2014-nqf.html>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com